

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Dreth Gyngor
(Atebolrwydd ar y Cyd ac Unigol Personau sy'n Ymadael â Gofal) (Cymru)
2022**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd ar y Cyd ac Unigol Personau sy'n Ymadael â Gofal) (Cymru) 2022. Rwyf yn fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
04 Mawrth 2022**

RHAN 1

Disgrifiad

1. Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd ar y Cyd ac Unigol Personau sy'n Ymadael â Gofal) (Cymru) 2022 (y Rheoliadau) yn rhoi esemptiad i bersonau cymwys 24 ac iau, sy'n ymadael â gofal, rhag atebolrwydd ar y cyd ac unigol am dalu'r dreth gyngor mewn perthynas ag anheddau trethadwy yng Nghymru.
2. Effaith y Rheoliadau fydd lleihau'r atebolrwydd am dalu'r dreth gyngor i ddim ar gyfer personau cymwys sy'n ymadael â gofal.
3. Er nad yw cyfeirio at 'esemptio' pobl rhag y dreth gyngor yn fanwl gywir yn gyfreithiol – gan mai term sy'n berthnasol i eiddo yn unig ydyw – mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hyn yn defnyddio'r term i ddisgrifio effaith y Rheoliadau.

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

4. Dim.

Y cefndir deddfwriaethol

5. Mae paragraff 12 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Deddf 1992), fel y'i mewnosodwyd gan adran 156 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio Deddf 1992 drwy reoliadau i ganiatáu i'r rhai sy'n ymadael â gofal fod yn esempt rhag atebolrwydd ar y cyd neu unigol am dreth gyngor mewn perthynas ag anheddau trethadwy yng Nghymru.
6. Mae'r pŵer i ragnodi anheddau penodol fel rhai sy'n esempt rhag y dreth gyngor wedi'i gynnwys yn adran 4 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992 (OS 1992/558), a wnaed o dan adran 4, yn gymwys i Gymru a Lloegr ac mae'n esemptio mwy nag 20 o gategoriâu o anheddau rhag y dreth gyngor. Ers datganoli, mae'r Gorchymyn yn cael ei ddiwygio ar wahân mewn perthynas â Chymru.
7. Mae'r pwerau i ragnodi categorïau ychwanegol o bobl sydd i'w diystyru at ddibenion penderfynu ar ddisgownt ar swm y dreth gyngor sy'n daladwy wedi'u cynnwys yn adran 11(5) a pharagraff 11 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyru Disgownt) 1992 (OS 1992/552) ("Rheoliadau 1992") yn rhagnodi categorïau ychwanegol o ddiystyriadau. Maent hefyd yn gymwys ar sail Cymru a Lloegr ac maent yn cael eu diwygio ar wahân ers datganoli. Mae'r ddeddfwriaeth yn sicrhau, pe bai person cymwys sy'n ymadael â gofal yn bodloni'r amgylchiadau a ragnodir, yn byw gyda pherson a fyddai fel arall â hawl i ddisgownt un oedolyn ar ei fil treth gyngor, y byddai'r bil yn cael ei gyfrifo fel pe na bai'r sawl sy'n ymadael â

gofal yn byw yn y fangre. Mewn geiriau eraill, byddai gan y sawl sy'n byw gyda'r person sy'n ymadael â gofal hawl o hyd i'r disgownt un oedolyn. Mae sawl categori o berson yn cael ei ddiystyru at ddibenion disgownt yn y dreth gyngor, er enghraifft myfyrwyr a gweithwyr gofal.

8. Trosglwyddwyd y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â'r uchod i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

9. Pan fo'r rhai sy'n ymadael â gofal yn byw gyda priod neu bartner neu mewn aelwydydd sydd â mwy nag un oedolyn, gellir dal pob un o'r oedolion yn atebol ar y cyd ac yn unigol am fil treth gyngor eu cartref. Felly, mae risg o hyd y gallai person sy'n ymadael â gofal gael ei ddal yn atebol am dalu'r dreth gyngor pan fo person arall (nad yw'n esempt) yn methu â thalu ei dreth gyngor.
10. Er mwyn rhoi esemptiad i'r rhai sy'n ymadael â gofal rhag atebolrwydd ar y cyd ac unigol, gwnaed newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae darpariaethau yn Atodlen 1 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd gan adran 156 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) yn galluogi Gweinidogion i bennu mewn rheoliadau bod unigolion cymwys sy'n ymadael â gofal sy'n bodloni'r amgylchiadau a ragnodir yn Rheoliadau 1992 yn cael eu diystyru at ddibenion disgownt treth gyngor ac na ellir eu dal yn atebol ar y cyd neu'n unigol am y dreth gyngor mewn perthynas ag unrhyw annedd drethadwy yng Nghymru.
11. Bydd y diwygiadau'n ategu'r gwaith ehangach sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i "geisio diwygio'r dreth gyngor i sicrhau system decach a mwy graddoledig" fel yr amlinellir yn Rhaglen Lywodraethu 2021-2026.
12. Mae gan awdurdodau lleol bwerau disgrisiwn i gynnig gostyngiadau ar filiau'r dreth gyngor ac mae rhai wedi defnyddio'r pwerau hyn i esemptio unigolion sy'n ymadael â gofal rhag atebolrwydd. Y newid deddfwriaethol yw'r cam olaf mewn ymateb i gynnig gan lywodraeth leol i gywiro anghysondebau yn ymarferol drwy ddileu'r rhyddhad disgrisiynol sydd ar gael gan rai awdurdodau i rai unigolion sy'n ymadael â gofal, a chyflwyno yn ei le ofyniad statudol i ddarparu esemptiad.

Ymgynghori

13. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 20 Awst a 12 Tachwedd 2022 yn gofyn am farn ar y cynnig polisi i ddileu atebolrwydd ar y cyd ac unigol personau cymwys 24 oed neu'n iau, sy'n ymadael â gofal, am dalu'r dreth gyngor. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru a chafodd ei e-bosio at gynulleidfa eang. Tynnwyd sylw rhanddeiliaid

allweddol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys awdurdodau lleol, cyrff sy'n cynrychioli sectorau, cyrff/cymdeithasau proffesiynol, sefydliadau cynghori ar ddyledion a Chyngor ar Bopeth.

14. Cafwyd 26 ymateb i'r ymgynghoriad

Crynodeb o'r Ymatebion

15. **Cwestiwn 1:** A ydych yn cytuno â bwriad y polisi i ddileu atebolrwydd ar y cyd ac yn unigol am dalu'r dreth gyngor ar gyfer pobl sy'n gadael gofal? Nodwch eich rhesymau.
Atebodd pob un o'r 26 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd 25 yn cytuno â'r cynnig i gael gwared ar yr atebolrwydd ar y cyd ac unigol am dalu'r dreth gyngor i unigolion sy'n ymadael â gofal. Thema gyffredin oedd cydnabyddiaeth y gallai llawer o bobl ifanc sy'n ymadael â gofal fod yn agored i niwed ac y byddai'r cynnig hwn yn rhoi amddiffyniad ychwanegol iddynt.
16. **Cwestiwn 2:** Rydym wedi cynnig gwneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth berthnasol i ddileu atebolrwydd ar y cyd ac yn unigol am dalu'r dreth gyngor ar gyfer pobl sy'n gadael gofal. Ydych chi'n cytuno â hyn, neu a allwch chi awgrymu opsiwn arall?
Atebodd pob un o'r 26 ymatebydd y cwestiwn hwn ac roeddent yn cytuno y dylid cyflwyno deddfwriaeth. Ni awgrymwyd unrhyw dulliau amgen.
17. **Cwestiwn 3:** Hoffem gael eich barn ar unrhyw effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?
Cafwyd 16 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion o'r farn na fyddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg na'i defnydd. Ni chodwyd unrhyw bryderon y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio'n andwyol ar y Gymraeg.
18. **Cwestiwn 4:** Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r dull polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwn sicrhau na fydd effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
Cafwyd 13 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Ni chodwyd unrhyw bryderon y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio'n andwyol ar y Gymraeg. Roedd un ymatebydd o'r farn nad oedd y cwestiwn yn berthnasol i'r ymgynghoriad
19. **Cwestiwn 5:** Roedd y cwestiwn hwn yn rhoi'r cyfle i godi unrhyw faterion cysylltiedig nad oedd y cwestiynau eraill wedi ymdrin â nhw'n benodol. Cafwyd 10 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd ymatebwyr o'r farn y dylai

ystod o gymorth fod ar gael i gynorthwyo'r rhai sy'n ymadael â gofal, gan gynnwys addysg ariannol.

20. Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn croesawu:

- y cynnig i ddileu'r risg i unigolion cymwys sy'n ymadael â gofal o fod yn atebol am dalu'r dreth gyngor pan fo person arall (nad yw'n esempt) ar yr aelwyd yn methu â thalu ei dreth gyngor; a
- y cynnig i ddiwygio deddfwriaeth i ddarparu esemptiad rhag yr atebolrwydd hwn i unigolion cymwys sy'n ymadael â gofal o 1 Ebrill 2022.

21. Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn:

[Cael gwared ar atebolrwydd unigolion cymwys sy'n gadael gofal am dalu'r dreth gyngor | LLYW.CYMRU](#)

22. Anfonwyd yr ymgynghoriad technegol ar yr offeryn statudol drafft i awdurdodau lleol Cymru a'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad polisi er mwyn iddynt allu gwneud sylwadau arno rhwng 20 Ionawr 2022 a 10 Chwefror 2022. Cafwyd un ymateb yn croesawu'r polisi a'r Rheoliadau.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

23. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno dau ddewis mewn perthynas â chyflwyno esemptiadau rhag y dreth gyngor i unigolion sy'n ymadael â gofal o 1 Ebrill 2022. Yn benodol, cael gwared ar yr atebolrwydd ar y cyd ac unigol am dalu'r dreth gyngor ar gyfer unigolion cymwys sy'n ymadael â gofal.
24. Mae'r holl gostau a manteision a fesurir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn seiliedig ar wybodaeth a data a oedd ar gael i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cyhoeddi.
25. Mae dau opsiwn wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r diwygiad i'r rheoliadau. Dyma'r opsiynau a ystyriwyd:
- Opsiwn 1 Gwneud dim: parhau â'r trefniadau presennol sy'n galluogi awdurdodau lleol i ddewis defnyddio'u pwerau disgresiwn i roi rhyddhad i'r rhai sy'n ymadael â gofal rhag atebolrwydd ar y cyd ac unigol am dalu'r dreth gyngor.
- Opsiwn 2 Cyflwyno deddfwriaeth erbyn 1 Ebrill 2022 i esemptio unigolion cymwys sy'n ymadael â gofal cymwys rhag atebolrwydd ar y cyd ac unigol am dalu'r dreth gyngor.

Opsiwn 1: Gwneud dim: parhau â'r trefniadau presennol sy'n galluogi awdurdodau lleol i ddewis defnyddio'u pwerau disgresiwn i roi rhyddhad.

26. Ni fyddai opsiwn 1 yn gofyn am unrhyw newidiadau deddfwriaethol. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn lleihau atebolrwydd treth gyngor unigolion sy'n ymadael â gofal i ddim, ar wahân i'w hatebolrwydd ar y cyd ac unigol am dalu'r dreth gyngor. Caiff awdurdodau lleol, yn ôl eu disgresiwn, barhau i weinyddu a gweithredu cynlluniau i esemptio'r rhai sy'n ymadael â gofal rhag yr atebolrwydd hwn am y dreth gyngor o fewn eu hawdurdod.

Costau i Lywodraeth Cymru

27. Byddai Opsiwn 1 yn golygu parhau â'r arfer presennol ac ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

Costau i awdurdodau lleol

28. Tan 2019 amcangyfrifir mai £10,000 y flwyddyn oedd y gost gyfartalog i awdurdod lleol weinyddu rhyddhad disgresiynol i'r rhai sy'n ymadael â gofal. Ers 2019 mae deddfwriaeth wedi bod ar waith i leihau atebolrwydd y dreth gyngor i'r rhai sy'n ymadael â gofal i ddim, ar wahân i'w rhwymedigaeth ar y cyd ac unigol am dalu'r dreth gyngor. Byddai awdurdodau lleol sy'n dewis darparu rhyddhad disgresiynol rhag atebolrwydd ar y cyd ac unigol am dalu'r dreth gyngor yn parhau i olygu cost fechan.

Manteision

29. Ni fyddai unrhyw newid o ran arferion ac ni fyddai angen unrhyw newidiadau deddfwriaethol.

Anfanteision

30. Yn *Rhaglen Lywodraethu 2021-26* wedi'i diweddarau, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i 'geisio diwygio'r dreth gyngor i sicrhau system decach a mwy graddoledig. Mae'n annhebygol y byddai gwneud dim, sef Opsiwn 1, yn cyfrannu at yr amcan polisi.
31. Mae'r arfer presennol ymhlith awdurdodau lleol yn anghyson. Gallai rhai awdurdodau lleol ddewis peidio â darparu rhyddhad yn ôl disgrisiwn i esemptio'r rhai sy'n ymadael â gofal rhag atebolrwydd ar y cyd ac unigol am dalu'r dreth gyngor.
32. Cydnabyddir yn gyffredinol bod y rhai sy'n ymadael â gofal yn arbennig o agored i niwed ac ni fyddai Opsiwn 1 yn gwneud dim i'w cefnogi.

Opsiwn 1 – Crynodeb

33. Byddai gwneud dim yn cadw'r trefniadau presennol ac ni fyddai'n arwain at unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Byddai awdurdodau lleol yn parhau i ysgwyddo'r gost o weinyddu unrhyw ryddhad yn ôl disgrisiwn. Ni fyddai'r opsiwn yn hyrwyddo amcan polisi Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r dreth gyngor, gan sicrhau system decach a mwy graddoledig. Opsiwn 2, felly, yw'r opsiwn a ffefrir.

Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth erbyn 1 Ebrill 2022 i esemptio pobl gymwys sy'n ymadael â gofal rhag atebolrwydd ar y cyd ac unigol am dalu'r dreth gyngor.

34. Byddai Opsiwn 2 yn golygu cyflwyno deddfwriaeth i 'esemptio' unigolion cymwys sy'n ymadael â gofal rhag eu hatebolrwydd ac y cyd ac unigol am dalu'r dreth gyngor o 1 Ebrill 2022.

Costau i Lywodraeth Cymru

35. Byddai effaith fechan iawn ar sylfaen dreth y dreth gyngor.

Costau i awdurdodau lleol

36. Awdurdodau lleol fyddai'n ysgwyddo cost yr esemptiad. Oherwydd y nifer isel unigolion cymwys sy'n ymadael â gofal y gallai hyn gael effaith arnynt, byddai'r costau'n fychan iawn.

Manteision

37. Cefnogir Opsiwn 2 gan awdurdodau lleol a chynrychiolwyr y sector. Cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon yw'r cam olaf mewn ymateb i gais gan lywodraeth leol i roi'r ddarpariaeth bresennol o ryddhad yn ôl disgrisiwn ar sail statudol.
38. Byddai Opsiwn 2 yn sicrhau cysondeb yn y cymorth treth gyngor sydd ar gael i bobl sy'n ymadael â gofal yng Nghymru sy'n 24 oed neu'n iau.

Anfanteision

39. Gallai awdurdod lleol ddewis mabwysiadu diffiniad ehangach o'r rhai sy'n ymadael â gofal nag y mae'r ddeddfwriaeth bresennol wedi'r dewis, neu estyn y cymorth y tu hwnt i'w pen-blwydd yn 25 oed. Byddai gan awdurdodau lleol y pŵer o hyd i ddarparu rhyddhad yn ôl disgrisiwn i'r rhai nad ydynt wedi'u cynnwys yn y diffiniad, neu yn unol â diffiniad ehangach.
40. Awdurdodau lleol fyddai'n ysgwyddo cost yr esemptiad. Fel y nodwyd, byddai hyn yn debyg i'r gost o weinyddu rhyddhad yn ôl disgrisiwn, er nad yw pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi dewis rhoi rhyddhad yn ôl disgrisiwn i'r rhai sy'n ymadael â gofal. Yn yr achosion hyn, byddai'r costau'n ychwanegol. Fodd bynnag, dylai fod arbedion eraill sy'n gwrthbwysu hyn mewn gwasanaethau lleol eraill o ganlyniad i sicrhau bod y rhai sy'n ymadael â gofal yn fwy diogel yn ariannol ac nad yw awdurdodau'n gorfod gweinyddu gostyngiadau ar sail prawf modd i unigolion sy'n ymadael â gofal.

Opsiwn 2 – Crynodeb

41. Mae Opsiwn 2 yn gofyn am newid deddfwriaethol. Mae hyn yn golygu rhywfaint o gost weinyddol ychwanegol i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ond bychan iawn fyddai hyn. Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi cymorth cyson i unigolion 24 oed neu'n iau sy'n ymadael â gofal, ac wrth wneud hynny yn cefnogi amcan Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r dreth gyngor er mwyn sicrhau system decach a mwy graddoledig. Opsiwn 2, felly, yw'r opsiwn a ffeirir.

Dadansoddi effeithiau eraill

Hyrwyddo Cyfleoedd Economaidd i Bawb (Trechu Tlodi)

42. Mae ôl-ddyledion y dreth gyngor yn fwy tebygol o effeithio ar y rhai sy'n ymadael â gofal nag ar eu cyfoedion. Mae *The Wolf at the Door: How council tax debt collection is harming children* (2015) a *The Cost of Being Care Free: The impact of poor financial education and removal of support on care leavers* (2016) ill dau yn tynnu sylw at y ffaith bod y rhai sy'n ymadael â gofal yn grŵp arbennig o agored i niwed o ran dyled y dreth gyngor a bod cyfnod pontio tuag wrth symud i lety annibynnol a dechrau byw'n annibynnol yn heriol. Cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru *Breuddwydion Cudd* (2017) a oedd yn galw ar i bobl ifanc sy'n ymadael â gofal gael bod yn ganolog mewn gwaith sy'n cael ei wneud i wneud y dreth gyngor yn decach. Tynnodd y

Comisiynydd sylw at rôl awdurdodau lleol fel Rhieni Corfforaethol. Bydd y diwygiad hwn yn sicrhau nad yw'r rhai sy'n gadael gofal yn atebol am y dreth gyngor gan gynnwys unrhyw atebolrwydd ar y cyd ac unigol cyn eu penblwydd yn 25 oed.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

43. Bydd y mesur hwn yn berthnasol i bobl ifanc dros 18 oed. Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar hawliau plant.

Y Gymraeg

44. Ni nodwyd unrhyw effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin yr iaith yn gyfartal.

Cydraddoldeb

45. Mae adran 149(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw, wrth arfer eu swyddogaethau, i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf 2010; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu; meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a pherson nad ydynt yn ei rhannu.
46. At ddibenion 149, y nodweddion gwarchoddedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r diffiniad o unigolion sy'n ymadael â gofal yn cynnwys pobl 24 oed neu'n iau yn unig, felly ni fydd y rhai sy'n 25 oed neu'n hŷn yn elwa o'r esemptiad. Felly mae'r polisi hwn yn trin pobl yn wahanol ar sail oedran.

Nid yw'r polisi hwn yn effeithio'n negyddol ar y rhai sy'n ymadael â gofal sydd dros 25 oed gan y byddant yn aros yn yr un sefyllfa ag y maent ar hyn o bryd, tra bydd y rhai o dan 25 oed mewn gwell sefyllfa (gan na fyddant bellach yn atebol ar y cyd nac yn unigol am y dreth gyngor).

Bydd y polisi hwn yn helpu i ddiwallu anghenion penodol y rhai sy'n ymadael â gofal sy'n 24 oed neu'n iau trwy eu cefnogi wrth iddynt bontio i fod yn oedolion a byw'n annibynnol – anghenion nad ydynt yn bethnasol i'r un graddau i'r rhai 25 oed a throsodd. Ystyrir bod y polisi hwn yn hyrwyddo cyfle cyfartal.

47. Ni ddisgwylir y bydd effaith negyddol ar gydraddoldeb o ganlyniad i'r diwygiadau.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("ECHR")

48. Ystyriwyd yr ECHR o ran
- Erthygl 8(1) - parch at fywyd preifat a theuluol a'r cartref.
 - Erthygl 1 o Brotocol 1 - diogelu eiddo
 - Erthygl 14 - gwahardd gwahaniaethu

49. Ni ddisgwylir y bydd effaith negyddol ar yr hawliau hyn o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

50. Bydd cyflwyno esemptiadau i'r dreth gyngor ar gyfer y rhai sy'n ymadael â gofal yn helpu i gyfrannu at nod llesiant Cymru fwy cyfartal.

Yr effaith ar y sector gwirfoddol

51. Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar fudiadau yn y sector gwirfoddol. Mae rhannau o'r sector gwirfoddol yn rhoi cyngor a chymorth i'r rhai sy'n ymadael â gofal ar faterion yn ymwneud â dyledion y dreth gyngor a bydd y diwygiadau'n dileu'r angen i gynghori'r rhai sy'n ymadael â gofal ar yr agwedd hon ar eu cyllid.

Asesiad cystadleuaeth

52. Mae'r diwygiadau'n ymwneud â gweinyddu'r dreth gyngor ac nid ydynt yn cael unrhyw effaith ar fusnes nac ar gystadleuaeth. Felly, ni chynhaliwyd asesiad cystadleuaeth.

Adolygu ar ôl gweithredu

53. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effaith cyflwyno esemptiadau rhag y dreth gyngor i'r rhai sy'n ymadael â gofal drwy ymgysylltu ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.